

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Genesis 25: 19-34

27: 1-41



ADNOD
ALLWEDDOL
Rhufeiniad 5: 8

Astudiaeth I Jacob – Y Twyllwr

Awgrymiadau am Adnoda Eraill i'w Darllen
Diarhebion 11: 18 Galatiaid 6: 7-8 Hebreaid 12: 16-17

Mae'r set hon o astudiaethau'n ein cyflwyno i deulu Isaac, mab Abraham.

C O'r ffeithiau a roddir yn y Darleniad cyntaf o'r Beibl, llanwch y bylchau yn y darn isod:-

Enw gwraig Isaac oedd

Roedd yn fam i efeiliaid o'r enw a

Roedd yr un hynaf yn

Hyd yn oed cyn eu geni, dywedodd yr Arglywydd wrth eu mam y byddai'r

Mae'r Darleniadau o'r Beibl yn dangos bod datganiad Duw am ddyfodol y bechgyn wedi dod yn wir mewn ffyrdd rhyfedd iawn. Llwyddodd Jacob i gael y gorau ar Esau DDWY waith, trwy dwyllo a dweud celwydd, ac felly cafodd awdurdod dros ei frawd.

3

Y TRO CYNTAF – BRAINT Y MAB HYNAF:

Darlenwch 25: 29-34 eto. Roedd yr 'enedigaeth-fraint' yn eiddo i fab hynaf y teulu. Roedd yn rhoi'r hawl iddo fod yn ben y teulu a chael siâr ddwbl o gyfoeth y tad. (Deuteronomium 21: 17). Roedd Jacob, y mab IEUENGAF, yn benderfynol o ddwlyn yr enedigaeth-fraint oddi wrth Esau!

C O dan ba amgylchiadau ofynnodd Jacob i Esau am yr enedigaeth fraint?

2

C Beth gafodd Esau yn gyfnewid am yr enedigaeth-fraint?

1

Mae hyn yn dangos bod Jacob yn hunanol a'i fod yn barod i gymryd mantais annheg, hyd yn oed o'i frawd, er mwyn cael ei ffordd ei hunan. Ond y peth rhyfeddol yw bod gan Dduw gynllun ar ei gyfer er ei fod yn gelwyddog ac yn dwyllodrus. Byddai Duw'n rhoi ei gynlluniau ar waith ym mywyd Jacob. Felly y mae hi heddiw hefyd. Mae Duw yn ein caru ac yn dymuno i ni fod yn blant iddo er ein bod ni'n mynd ein ffordd ein hunain.

C Cewch ddarllen am hyn yn yr Adnod Allweddol; ysgrifennwch hi yma.

2

YR AIL DRO – Y FENDITH: Genesis 27: 1-29

Roedd Isaac wedi bwriadu bendithio Esau ond cafodd Jacob y fendith trwy dwyll!

Darllenwch yr adnodaau hyn yn ofalus ac ateb y cwestiynau isod:

C Beth wnaeth hi'n hawdd i Jacob dwyllo'i dad?

1

C Sut aeth Jacob ati i wneud ei hunan yn debyg i Esau?

2

C Beth oedd rhan Rebeca yn y twyll?

2

Er ei fod yn amheus ar y dechrau, rhoddodd Isaac ei fendith i Jacob (adnodaau 27-29). Fel y dywedodd Duw flynyddoedd yn gynt, byddai Jacob yn ddyn grymus.

C Yn ôl adnod 29, sut y byddai ei awdurdod yn cael ei fynegi?

2

C Pan oedd Isaac newydd orffen bendithio Jacob,
pwy gyrhaeddodd?

1

Roedd yr hen wr dall wedi drysu'n llwyr ac roedd Esau'n siomedig ac yn ddig.

C Dangoswch beth ddigwyddodd ar ddiwedd y stori trwy roi geiriau addas yn
y bylchau isod.

3

Gwaeddodd Esau yn , ac ymbil ar ei i'w ef hefyd. Esboniodd Isaac ei fod wedi gwneud Jacob yn dros Esau, ac na allai dynnu hyn yn ôl. Byddai'n rhaid i Esau wrth ei gleddyf am byth.

1

Yn drist iawn, daw'r stori i ben a'r ddua frawd yn llawn casineb at ei gilydd.

C Beth wnaeth Esau fygwth ei wneud i Jacob??

Mae stori Jacob yn dangos yn glir i ni bod twyllo a dweud celwydd yn arwain at anhapusrwydd a thrafferth i ni. Yn lle hybny, dylem adael i Dduw gyflawni ei gynlluniau ar gyfer ein bywyd ni, yn ei ffordd ei hunan ac yn ei amser ei hunan. Bu'n rhaid i Jacob ddysgu mai "garw yw ffordd y twyllwyr".

(Diarhebion 13: 15)



DARLLENWCH
Genesis 27: 41-46
28: 1-22



ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 28: 16

Astudiaeth 2 Jacob – Y Breuddwydiwr

Awgrymiadau am Adnodaau Eraill i'w Darllen

Genesis 35: 1-15 Job 33: 14-18 Ioan 1: 45-51

Gan fod Esau'n bygwth lladd ei frawd, Jacob, y peth doethaf oedd i Jacob ddianc i le diogel.

C At bwy yr awgrymodd mam Jacob y dylai fynd?

C Beth oedd enw'r man lle'r oedd hwnnw'n byw?

Roedd Rebeca meddwl y byddai Esau'n dod dros ei ddiicter yn fuan iawn ac y cai Jacob, ei hoff fab hi, ddod adref eto. Ond nid dyna fel y bu hi!

C Ar ddiwedd taith y diwrnod cyntaf, beth wnaeth Jacob?

C Disgrifiwch, YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, beth a welodd Jacob yn ei freuddwyd.

Y peth pwysicaf oedd bod DUW YN SIARAD Â JACOB!

Beth roedd Duw yn ei ddweud am:

C Y wlad lle'r oedd Jacob?

C Hil neu ddisgynyddion Jacob?

C Dyfodol Jacob?

Roedd Duw yn addo pethau ardderchog i Jacob fel yr oedd wedi'i wneud i Abraham ac Isaac.

Rydyn ni'n credu bod Duw yn cadw at ei Air bob amser. Er bod Jacob wedi gwneud pethau drwg, roedd Duw yn dal i ofalu amdano ac roedd ar waith yn ei fywyd.

C Mae'r Adnod Allweddol yn nodi bod Jacob yn rhyfeddu pan ddihunodd.

Ysgrifennwch beth a ddywedodd.

Roedd Jacob ar ffo. Roedd yn ofnus ac efallai ei fod yn meddwl nad oedd neb yn gwybod lle'r oedd! Os felly, roedd yn anghywir! Roedd Duw yn gwybod ! Roedd yr hyn a ddigwyddodd wedi creu argraff fawr ar Jacob ac roedd rhaid iddo ymateb mewn rhyw ffordd.

C Beth wnaeth Jacob pan gododd?

I

Roedd y cyfarfod hwn â Duw mor bwysig i Jacob fel y rhoddodd enw ar y man lle'r oedd. Ystyr yr enw oedd 'Tŷ Dduw'.

C Ysgrifennwch yr enw a'i ystyr.

Mae yn golygu

I

Heddiw, mae pawb ohonon ni yn debyg i Jacob mewn rhyw ffordd. Fel Jacob, rydyn ni wedi pechu, ond mae Duw yn ein caru ac yn dymuno'n hachub ni. Does dim rhaid i ni deithio i fan arbennig i gwrdd â Duw, nac aros am freuddwyd arbennig. Oherwydd bod lesu wedi marw dros ein pechoda ni, gallwn ddod at Dduw "trwy ffydd". Mae hyn yn golygu ein bod yn ymddiried yn llwyr ynddo ac yn derbyn yr Arglwydd lesu i'n bywydau fel Gwareddwr ac Arglwydd. Ydi lesu'n gweithredu fel 'sgol i'r Nefoedd' i chi?

Cyn symud ymlaen, gwnaeth Jacob nifer o addewidion i Dduw.

2

C Ysgrifennwch frawddeg am UN ohonynt.


--



C I orffen yr astudiaeth hon, gwnewch y CROESAIR.

Cliwiau ar Draws

1. Y man lle'r oedd Jacob yn byw cyn iddo ffoi. (Genesis 28: 10)
5. Hen enw'r man lle cafodd y freuddwyd. (adn. 19)
6. Addawodd Jacob roi un rhan
 - o ____ o bopeth oedd ganddo i Dduw.
7. Y man yr oedd yn mynd iddo. (adn. 10)



4

Cliwiau i Lawr

1. Enw tad-cu Jacob. (28: 2)
2. Roedd yr ysgol yn cyrraedd i'r _____.
3. Yr enw a roddodd Jacob ar y lle.
6. Roedd y rhain yn mynd i fyny ac i lawr.



DARLLENWCH
Genesis 29: 1-30
31: 1-21



ADNOD
ALLWEDDOL
Galatiaid 6: 7

Astudiaeth 3 Jacob – Siomedigaethau

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 103: 105 Rhufeiniaid 7

Ar ôl ei brofiad rhyfeddol ym Methel, aeth Jacob ymlaen am gannoedd o filltiroedd tan iddo gyrraedd Haran, y lle y daeth ei fam ohono flynyddoedd cyn hynny. Roedd Jacob yn awyddus i ddod o hyd i'w berthnasau. Y lle gorau i ddechrau chwilio oedd ger y ffynnon.

C Pam roedd y bugeliaid yn casglu wrth y ffynnon bob dydd?

I

C Pan gyrhaeddodd Jacob at y ffynnon:-

Beth oedd y cwestiwn CYNTAF a ofynnodd?

Pwy oedd y person CYNTAF yr holodd amdano?

Pwy oedd yr aelod CYNTAF o deulu ei fam iddo gwrrdd â hi?

Beth oedd y ffordd GYNTAF iddo'i helpu hi?

4

Yna, cafodd Jacob groeso cynnes yng nghartref ei ewythr. Mae'n rhaid ei fod yn falch i gael y fath groeso. Roedd Duw yn cadw ei addewidion! (Genesis 28: 15).

C Roedd gan ei ewythr ddwy ferch. Ysgrifennwch eu henwau yn y blychau.

I

C Atebwch y cwestiynau hyn amdanyn nhw:-

Pa un ohonyн nhw gusanodd Jacob?

Pa un oedd yr hynaf?

Pa un oedd yn ddel iawn?

Pa un gwrrddodd Jacob â hi gyntaf?(adn. 29: 6)

Yn ôl arferion yr ardal, pa un ddylai briodi gyntaf?

Pa un oedd Jacob yn ei charu?

Dyweddodd Laban y byddai'n rhaid i Jacob weithio iddo am saith mlynedd cyn y cai ei phriodi hi.

C Pam aeth y saith mlynedd heibio fel ychydig ddyddiau?

3

I

- C** Saith mlynedd yn ddiweddarach, ar ddiwrnod ei briodas, sut cafodd Jacob ei dwyllo gan Laban?

Meddyliwch! Y 'twyllwr' yn cael ei 'dwyllo'. Roedd y dyn 'caled' wedi cwrdd â meistr yr un mor 'galed'! Fel'n Mae hi'n aml mewn bywyd! Os ydyn ni'n trin pobl eraill yn ddrwg, yn aml iawn bydd rhywun yn ein trin ni'n ddrwg! Mae'r Adnod Allweddol yn cymharu hyn i "hau" a "medi".


- C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r rhan sy'n ein hatgoffa y bydd y pethau drwg a wnaethom i eraill yn dal i fyny â ni.

Yn y dyddiau hynny, roedd gan rai dynion fwy nag un wraig, ond nid dyna oedd cynllun Duw. Ei fwriad ef oedd mai un wraig fyddai dyn yn ei chael.

Darllenwch Mathew 19: 5 a 6.

Ym Mhennod 31, mae Jacob yn paratoi i adael Haran. Roedd 20 mlynedd ers iddo adael cartref (Genesis 31: 38) ac fe gafodd fywyd caled a phrysur ond doedd Duw ddim wedi'i anghofio! Dywedodd Duw wrtho beth i'w wneud mewn breuddwyd.

- C** Beth oedd i fod i'w wneud?



Ydych chi'n gwneud fel y mae Duw eisiau i chi ei wneud yn eich bywyd?

- C** Edrychwch ar ddiwedd adnod 31: 16 ac ysgrifennu **YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN** beth ddywedodd Rachel a Leah am benderfyniad Jacob i adael.

Pan gyrhaeddodd i Haran, roedd ar ei ben ei hunan yn llwyr, ond erbyn hyn roedd ganddo gyfoeth a theulu mawr.

- C** Pa ddau air yn adnod 17 sy'n dangos nad oedd Jacob yn mynd yn ôl ar ei ben ei hunan?

1
2

Roedd Duw wedi cadw'i Air! Roedd Jacob yn dal yn ddyn twyllodrus. Am flynyddoedd, roedd wedi ceisio cael y gorau ar Laban (Genesis 31: 36-42). Ond er ei wendidau, roedd Duw yn dal ar waith yn ei fywyd. Mae'n bwysig i bawb ohonom ddeall ei bod yn well bod yn uffud i Dduw na mynd ein ffordd ein hunan!



DARLLENWCH
Genesis 32: 1-32
33: 1-17



ADNOD
ALLWEDDOL
I loan 1:9

Astudiaeth 4 Jacob – Y Darganfyddiad



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Colosaid 3: 12-14 Iago 4: 8 I loan 1: 6-10

Roedd Jacob ar ei ffordd adref, ugain mlynedd ar ôl ffoi oddi wrth ei frawd, Esau. Wrth ddod yn nes at yr ardal lle'r oedd Esau'n byw, anfonodd negeswyr o'i flaen i ddweud wrth Esau ei fod ar y ffordd.

C Pa newyddion ddaeth negeswyr yn ôl i Jacob

1

Roedd Jacob wedi dychryn! Roedd yn meddwl bod Esau yn dod i ymladd ag ef! Gwnaeth Jacob nifer o bethau i geisio arbed ei bobl.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn wir ai peidio:-

- Rhannodd ei anifeiliaid yn ddua grŵp mawr.
Aeth i'r bryniau i guddio oddi wrth Esau.
Gweddiodd ar Dduw a gofyn am ei help.
Penderfynodd fynd nôl at Laban.
Anfonodd anrheg fawr at Esau.
Brysiodd ymlaen ar ei ben ei hunan i gael cyfarfod personol gydag Esau.

6

Yn ystod y nos, cafodd Jacob brofiad rhyfedd iawn.

C Darllenwch am y profiad eto yn adnodau 24-31 ac atebwch y cwestiynau yn y bylchau a rhoi cylch o'u cwmpas yn y CHWILAIR.

- Sawl mab oedd gan Jacob bryd hynny?
- Beth oedd enw'r rhyd neu'r afon yr aeth ei deulu cyfan drosti?
- Beth oedd yr ateb i'r cwestiwn 'Beth yw d'enw?'
- Beth fu Jacob a'r gwyr yn ei wneud trwy'r nos?
- Beth oedd yr enw newydd a gafodd Jacob?
- Beth roddodd Jacob yn enw ar y lle?

U N A R D d E G
M P E N U E L
Y A R C J O A
D I S R A E L
O R E A B R J
G C T W B C D
M E A R O M A
Y N B O C A J

6

C Beth ddywedodd Jacob ar ôl cyfarfod â Duw?

2

Dyma'r 'allwedd' i ddatglo i ystyrru y digwyddiad rhyfedd yn y nos. I Jacob, roedd cwrdd â DUW hyd yn oed yn bwysicach na chwrdd â'i frawd. Roedd yr hyn a ddigwyddodd y noson honno'n profi i Jacob bod gan Dduw gynnlluniau ar ei gyfer o hyd. Doedd Duw ddim am ei roi o'r neilltu. Roedd am wneud dyn newydd ohono, fel y mae'r enw newydd a gafodd yn awgrymu.

Mae'n hollbwysig ein bod ninnau'n cael cyfarfod personol gyda Duw. Gallwn ddod at Dduw trwy'r Arglywydd lesu a chael maddeuant am bopeth rydym wedi'i wneud yn anghywir.

C Mae'r Adnod Allweddol yn dweud wrthym beth y mae Duw yn awyddus i'w wneud drosom ni. Ysgrifennwch hi yma.

Drannoeth, daeth y ddau frawd wyneb yn wyneb! Roedd Jacob wedi bod yn poeni am y funud hon ers amser maith ond aeth popeth yn iawn


C Ysgrifennwch frawddeg i ddweud sut groeso gafodd Jacob gan Esau.

2

Mae'n siwr bod Jacob yn hapus pan welodd fod Esau wedi maddau iddo!
Yn hyn o beth, mae Esau'n esiampl dda i bawb ohonom, yn enwedig os ydym yn dilyn yr
Arglywydd Iesu. Mae EF wedi maddau i ni a dylen ninnau faddau i'r rhai sy'n gwneud rhywbeth i'n
brifo ni.

C Chwiliwch am Effesiad 4: 32 a'i hysgrifennu yma.

I



2

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120